

Yr Ŵyl yn eich Pocer

Eisteddfod Genedlaethol
Wrecsam a'r Fro
30 Gorffennaf - 6 Awst 2011

National Eisteddfod
Wrexham and District
30 July - 6 August 2011





Yr Ŵyl yn eich Paced


Croeso i'r Eisteddfod Genedlaethol. Dyma ŵyl fwyaf Cymru – y Brifwyl, ac mae'n denu 150,000 – 160,000 o ymwelwyr bob blwyddyn.

Mae'r Eisteddfod yn teithio o gwmpas Cymru, gan ymweld â'r gogledd a'r de bob yn ail. Mae hyn wedi digwydd ers llawer o flynyddoedd ac mae'n gyfle da iawn i gefnogwyr yr Eisteddfod ddod i adnabod pob rhan o Gymru!

Fel arfer mae'r Eisteddfod yn digwydd mewn cae. Y Maes yw enw'r cae yma ac mae'r Maes yn llawn o bob math o bethau i'w gwneud. Gallwch dreulio'r holl wythnos yn crwydro'r Maes yn hawdd. Mae cymaint i'w weld ac i'w wneud yma.

The Eisteddfod is Wales' largest festival, attracting 150,000–160,000 visitors every year, and is held in a different part of Wales every year, focusing on all types of cultural activities.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cerddoriaeth, dawns, barddoniaeth, celf, theatr, llenyddiaeth, cystadlaethau – neu unrhyw fath o weithgareddau ar gyfer y teulu, yr Eisteddfod yw'r lle i chi.

Cymraeg yw iaith yr Eisteddfod ac mae popeth swyddogol yn digwydd yn y Gymraeg. Ond peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n rhugl, mae llawer o wybodaeth ddwyieithog ar gael – ac offer cyfieithu i ddilyn digwyddiadau'r Pafiliwn. Chwiliwch am y symbol  i wybod pa weithgareddau sy'n cael eu cyfieithu.

Cofiwch atw mewn i Maes D i ymarfer eich Cymraeg yn ystod yr wythnos. Mae llawer o weithgareddau yma ar gyfer dysgwyr o bob safon. Dewch draw am sgwrs, bydd croeso cynnes iawn i chi yno.

Cefndir

Mae hanes yr Eisteddfod yn mynd yn ôl i 1176, ond dechreuodd yr Eisteddfod fodern yn 1861 – felly rydym wedi dathlu ein pen blwydd yn 150! Mae'r Eisteddfod wedi newid llawer dros y 150 mlynedd ddiwethaf ac wedi tyfu a datblygu i fod yn un o wyliau mawr y byd.

Mae llawer o ardaloedd yng Nghymru eisiau cynnal yr Eisteddfod, gan ei bod yn denu cymaint o bobl i'r ardal. Mae'r wyl yn costio tua £3.4 miliwn bob blwyddyn ac mae llawer o'r arian yma'n cael ei godi gan bobl leol a thrwy chwilio am nawdd gan fusnesau a chwmnïau'r ardal a thrwy Gymru. Mae pobl leol yn trefnu nifer o weithgareddau codi arian drwy'r flwyddyn i helpu cyrraedd y targed ac mae'r rhain yn ffordd dda iawn o ddod i adnabod pobl eraill sy'n dysgu ac yn siarad Cymraeg yn lleol.

The modern day Eisteddfod started in 1861, although the tradition can be traced back to 1176.

Mae'r Eisteddfod hefyd yn derbyn grantiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae'r Eisteddfod yn rhoi cyfle i bobl fwynhau a dod at ei gilydd yn y Gymraeg ac yn lwyfan i ddiwylliant Cymru. Rydym yn helpu pobl i ddysgu Cymraeg ac yn rhoi cyfle i bobl ddefnyddio ac ymarfer yr iaith. Rydym yn gweithio mewn ardal am ddwy flynedd cyn i'r Eisteddfod ddigwydd, yn dweud wrth bobl am yr Eisteddfod a'u hannog i gefnogi.

y Maes

Mae dros 300 o stondinau o bob lliw a llun ar y Maes; rhai bach a mawr, drud a rhad – rhywbeth i bawb. Gallwch brynu popeth bron ar y Maes, felly dewch draw i fwynhau edrych o gwmpas, dewis – a phrynu amrhegion o bob math. Cofiwch ofyn am fap yn y Ganolfan Groeso i'ch helpu i weld beth sydd ar gael.

Mae gan yr Eisteddfod ei hun nifer o adeiladau ar y Maes ac mae llawer o bethau yn digwydd yma drwy'r wythnos. Mae llyfryn gweithgareddau dwyieithog ar gael o'r Ganolfan Groeso i'ch helpu i ddewis lle i fynd a beth i'w weld.

There's over 300 stands on the Maes. Remember to pick up your map in the Welcome Pavilion.



y Pafiliwn

Mae'r Pafiliwn mawr pinc yng nghanol y Maes, a dyma yw canolbwynt yr Eisteddfod. Mae cystadlaethau a'r seremonïau'n digwydd yn y Pafiliwn yn ystod yr wythnos. Mae croeso i chi fynd i'r Pafiliwn i fwynhau'r cystadlaethau gyda'ch tocyn, os oes lle. Yn y nos, gallwch fwynhau cyngherddau mawr yn y Pafiliwn. Mae rhai o sêr mwyaf Cymru wedi canu ar y llwyfan, gan gynnwys Bryn Terfel, Katherine Jenkins, Only Men Aloud a llawer mwy.



Competitions and ceremonies take place in the Pavilion. Some of Wales' best loved stars have performed here over the years. Come to enjoy some of the ceremonies in the Pavilion during your visit.



Mae nifer o seremonïau pwysig yn digwydd yn y Pafiliwn yn ystod yr wythnos:

Dydd Llun – **Seremoni'r Coroni**

Dydd Mawrth –
Gwobr Goffa Daniel Owen


Dydd Mercher – **Y Fedal Ryddiaith**


Nos Fercher – **Tlws y Cerdor**

Dydd Iau – **Y Fedal Ddrama**

Dydd Gwener – **Y Cadeirio**

Mae rhagor o wybodaeth yn y Rhaglen Swyddogol neu yn y llyfryn gweithgareddau.

Os nad ydych yn hyderus yn y Gymraeg, chwiliwch am y symbol  er mwyn llogi offer cyfieithu ar y pryd.

Pick up the bilingual Activities Booklet for more information, and remember to look out for the  symbol to book your simultaneous translation equipment to follow proceedings on stage.



Maes D

Maes D yw'r lle i ddod os ydych chi'n dysgu Cymraeg. Mae dysgwyr o bob rhan o Gymru'n dod at ei gilydd i gymdeithasu, cystadlu, rhannu profiadau, mwynhau cwmni siaradwyr Cymraeg – ac yn bwysicach na dim – i gael hwyl. Mae croeso matwr iawn i barwb ym Maes D. Dewch draw i weld beth sy'n digwydd yno!

Mae gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg a gweithgareddau cymdeithasol – a phob math o digwyddiadau drwy'r wythnos – o gwisiau i sesiynau iaith ac o sgysiau i gystadlaethau. Mae rhestr llawn o'r gweithgareddau ar yr arwydd y tu allan i'r adeilad neu defnyddiwch eich llyfryn gweithgareddau i weld beth sy'n digwydd.

Dewch i fwynhau amrywiaeth o siaradwyr yn adrodd eu straeon nhw am ddysgu Cymraeg, neu defnyddiwch y cyfrifiaduron ym Maes D i edrych ar y gwefannau sydd ar gael i'ch helpu i ddysgu Cymraeg.

Efallai eich bod wedi cystadlu yn yr Eisteddfod. Mae nifer o gystadlaethau ar gyfer dysgwyr. Dewch draw i weld pwy sydd wedi ennill y Gadair a'r Tlws Rhyddiaith, ac i gyfarfod Dysgwr y Flwyddyn.

Maes D is the place to come if you're learning Welsh – at any level. There's a packed programme of events and activities throughout the week.

Take a look at the information panel outside or at the list in your Activities booklet for more information. You can also use the resources in Maes D to find out more about learning Welsh.

y Lle Celf

Dyma arddangosfa celf a chrefft fwyaf Cymru. Mae dros 40,000 o bobl yn dod i weld yr arddangosfa bob blwyddyn, i fwynhau gwaith artistiaid sy'n dod yn amlwg yng Nghymru. Mae'n cynnwys celf gain, cerflunwaith, ffotograffiaeth, gwaith pren, brodwaith a ffasiwn. Mae catalog ar gael os ydych am ddysgu mwy am y gwaith – ac mae llawer o'r gwaith ar werth os ydych am eu prynu.

Mae gwaith enillwyr y cystadlaethau Celf yn cael ei arddangos yn Y Lle Celf, ac mae'r arddangosfa ar agor bob dydd yn ystod yr wythnos.



Y Lle Celf is Wales' national art gallery – for the week. Enjoy all types of visual arts in this exhibition. You can pick up a catalogue while you're there and works are available to buy.



y Babell Lên

Mae llawer iawn o bobl yn mwynhau digwyddiadau'r Babell Lên, sydd yn gartref i ddigwyddiadau am farddoniaeth a llenyddiaeth Gymraeg. Mae amserlen lawn yn y Babell Lên a bydd angen cyrraedd yn gynnar i fwynhau rhai pethau. Mae Ymryson y Beirdd, pan fo timau o feirdd yn cystadlu'n erbyn ei gilydd, yn boblogaidd iawn a bydd rhaid ciwio i fynd i mewn i gael sedd.

The Literary Pavilion is home to a number of poetry and literature based events on the Maes.

y Theatr

Dyma lle gallwch ddod i weld perfformiadau theatrig ar y Maes. Mae llawer o gwmnïau lleol o bob rhan o Gymru'n perfformio yn y Theatr yn ystod yr wythnos, ac mae'n llawn digwyddiadau i apelio at bobl o bob oed. Bydd angen cyrraedd y Theatr mewn pryd er mwyn cael mynd mewn i fwynhau perfformiad gan fod rhaid cau'r drysau. Defnyddiwch y llyfryn gweithgareddau neu'r arwydd y tu allan i'r Theatr i weld faint o'r gloch mae perfformiad yn digwydd.

The Theatre – come and enjoy theatrical performances of all kinds on the Maes throughout the week.

y Neuadd Ddawns

Dewch i'r Neuadd Ddawns i fwynhau wythnos lawn o ddawns cyfoes a thraddodiadol – ac mae cyfle i chi gymryd rhan yn y dawnsio hefyd! Mae pob math o ddawnsio i'w weld yn y Neuadd Ddawns – o ddawnsio llinell i berfformiadau gan rai o gloeswyr mwyaf poblogaidd Cymru.

The Dance Pavilion is home to a wide range of performances and a chance to get involved yourself!

y Babell Wyddoniaeth a Thechnoleg

Dyma lle y cewch flas ar bob math o wyddoniaeth a thechnoleg – o sioeau cemeg swnllyd i gystadlaethau i dorri record byd – mae popeth yn digwydd yn y Babell Wyddoniaeth a Thechnoleg. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwyddoniaeth, yna byddwch wrth eich bodd. Os nad ydych yn gwybod llawer am dechnoleg, byddwch yn sicr o ddysgu mwy mewn awyrgylch sy'n llawer o hwyl.

The Science and Technology Pavilion is full of interesting information about the latest scientific developments.

Llwyfannau Perfformio

Mae dau lwyfan perfformio ar y Maes gyda pherfformiadau gan artistiaid a bandiau enwog a newydd, corau a llawer o hwyl ar gyfer y teulu cyfan drwy'r wythnos. Mae'r llwyfannau'n agos at y patios bwyd a diod, felly gallwch fwynhau tamaid i'w fwyta neu rywbeth i'w yfed wrth wrando ar y perfformiadau.

The performances stages have live performances all day every day and are situated close to the food patios and the bars.



Gorsedd y Beirdd

Gorsedd y Beirdd sy'n rhedeg y prif seremonïau ar lwyfan y Pafiliwn. Dyma pryd mae beirdd a llenorion gorau Cymru'n derbyn gwobr – y Goron, y Gadair neu'r Fedal Ryddiaith - am eu gwaith. Mae'r enillwyr yn dod yn aelodau o'r Orsedd. Mae nifer o aelodau eraill yn yr Orsedd hefyd, rhai wedi sefyll arholiad ac eraill wedi gwneud cyfraniad i fywyd Cymru a'r iaith Gymraeg.

Yr Archdderwydd yw pennaeth yr Orsedd a gallwch eu gweld yn y Pafiliwn brynhawn Llun, Mercher a Gwener, a maen nhw hefyd ar y Maes ar fore Llun a Gwener yn rhoi croeso i aelodau newydd.

The Gorsedd honours the best writers and poets in Wales. The Archdruid is head of the Gorsedd, which can be seen on the Pavilion stage in the main ceremonies during the week.





Gyda'r nos

Mae'r Pafiliwn yn troi'n neuadd gyngerdd fawr gyda'r nos, ac mae sêr mawr o Gymru'n perfformio ar y llwyfan. Mae tocynnau'n mynd ar werth ar 1 Marwrth bob blwyddyn, felly cofiwch fynd i wefan yr Eisteddfod – www.eisteddfod.org.uk – i weld pwy sydd yn perfformio eleni.

Os ydych yn hoffi rhywbeth ychydig yn fwy tawel, dewch i Maes C i gael noson arbennig o dda. Mae llawer o grwpiau a pherfformwyr enwog yn dod i Maes C yn ystod yr wythnos, ac mae'r nosweithiau'n llai ffurfiol na'r cyngherddau'n y Pafiliwn. Mae Maes C ar y maes carafanau neu'n agos at y maes carafanau bob blwyddyn.

Maes B yw gŵyl ieuenctid yr Eisteddfod. Mae gigs yn digwydd bob noson gyda bandiau enwocaf Cymru. Mae tua 40 o fandiau'n perfformio'n ystod yr wythnos. Dyma lle mae'r maes pebyll ar gyfer pobl ifanc hefyd, ac mae'n rhoi cyfle i ieuenctid gyfarfod a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gwybodaeth am Maes B a Maes C ar gael ar wefan yr Eisteddfod neu drwy fynd i www.facebook.com/eisteddfod.

The Pavilion becomes a concert hall in the evening. Maes C is a less formal venue for gigs and performances and Maes B is the youth festival and is held in the Youth Village.

10 'must do' things at the Eisteddfod

You really should:

01. visit the various stands on the Maes and try out your Welsh on the stallholders.
02. spend some time in the large pink pavilion at the centre of the Maes
03. experience the colourful spectacle of the major ceremonies – for example the Crowning Ceremony, the Charing Ceremony, the Literary Medal – or better still all of them.
04. visit Maes D regularly, where you will learn to speak Welsh – whatever your level
05. spend time in Y Lle Celf and feast your eyes on all kinds of visual art and maybe treat yourself to your favourite piece
06. get involved in a wide range of performances in the Neuadd Ddawns – or merely sit back and be entertained – whichever you prefer
07. update yourself on the latest scientific developments in the Pabell Wyddoniaeth a Thechnoleg
08. visit the Llwyfannau Perfformio – the perfect venues for live performances all day – close to the food patio and bars
09. soak up the special Eisteddfod atmosphere – it's unique!
10. Make sure you catch one of the evening concerts – the Pavilion becomes a world class concert hall at night

Here are a few tips
for you to use - tra'n
crwydro'r Maes - when
exploring the Maes

Cytseiniaid / Consonants

You'll have fun getting your tongue
around these!

c as in **car**
(ALWAYS - never as in 'cease')

ch as in **Bach, Loch**

dd as in **the**

f as in **vase**

ff as in **off**

g as in **garden**
(ALWAYS - never as in 'giraffe')

ng as in **gang, Kung Fu**

ll to produce this sound, place the tip
of your tongue against your upper
palate, and breathe out! GOOD LUCK!

ph as in **photograph**

r as in **row**

rh to produce this letter, sound the Welsh
'r' and breathe out

th as in **think**

Llafariaid / Vowels

There are 2 extra vowels yn Gymraeg.

α as in **car**

e as in **there**

i as in **tree**

o as in **pot**

u as in **been**

w as in **zoo**

y can be the sound in
'pub' or the sound in 'tin'

Treigladau / Mutations

If a word looks familiar then the chances are it is – even though the first letter or in some cases the first 2 or 3 letters are different.

Mutations are supposed to make pronunciation easier!

eg

paned > **baned**


tê α **choffi**

Cærdydd > **yng Nghaerdydd**

Letter	...can change to...	Soft mutation	Aspiriate mutation	Nasal mutation
c		g	ch	ngh
p		b	ph	mh
t		d	th	nh
g		disappears	—	ng
b		f	—	m
d		dd	—	n
ll		l	—	—
m		f	—	—
rh		r	—	—

Arwyddion / Signs around the MAES

Esgusodwch fi... Ble mae...?



Cyfarch a ffarwelio / Greeting and saying goodbye

Bore da — Good morning

P'nawn da — Good afternoon

Noswaith dda — Good evening

Hwyl — Goodbye

Sut mae? — How are you?

Cwrteisi / Good manners

Os gwelwch yn dda — Please

Diolch — Thanks

Dim diolch — No thanks

Esgusodwch fi — Excuse me

Mae'n ddrwg gen i — I'm sorry

Sori! — sorry

Dim problem — No problem

Iawn — OK / Fine

Gofyn am bethau / Asking for things

Ga i... os gwelwch yn dda?

tê — tea

coffi — coffee

sudd oren — orange juice

ysgytlaeth — milk shake

Mwy o fanylion / Add some more details:

Dim llefrith (N. Wales) — No milk

Dim llaeth (S. Wales) — No milk

siwgr — sugar

Dim siwgr — No sugar

Rwan (nawr) y pethau sy'n
mynd i'n llenwi / Now for the
more filling things

Baswn i'n hoffi... — I would like...

sglodion — chips

ffa pôb — baked beans

taten bôb — baked potato

cig eidion — beef

byrgyr — burger

menyn — butter

pysgod — fish

hufen iâ — ice-cream

cig oen — lamb

crempog — pancakes

porc wedi'i rostio — roast pork

ci poeth — hot dog

sosej / selsig — sausage

Faint ydych chi eisiau?
Sawl un ydych chi eisiau? /
How many do you want?

un — one

dau — two

tri — three

pedwar — four

pump — five

chwech — six

saith — seven

wyth — eight

naw — nine

deg — ten

These words are used on a daily basis from the Eisteddfod stage and around the MAES. Try using these Welsh words even when you are speaking English.

y Maes — the Eisteddfod field
barddoniaeth — poetry
beirdd — poets
Y celfyddydau — Arts
Y Lle Celf — Art Exhibition
cyngerdd — concert
cystadlaethau — competitions
dramâu — plays
Gorsedd y Beirdd — Order of the Bards
llynyddiaeth — literature
Maes Carafannau — Caravan Park
Maes D — Learners' Pavilion
offer cyfieithu — translation equipment
Y Babel Lân — Literary Pavilion
Swyddfa docynnau — Ticket Office
tocyn/nau — ticket/s
stondin/au — stall/s
Y Fedal Ryddiaeth — The Prose Medal
Y Gadair — The Bardic Chair
Y Cadeirio — The Chaining Ceremony
Y Goron — The Bardic Crown
Y Coroni — The Crowning Ceremony

Beth amdani? / How about it?

Do you fancy learning
more Welsh?

Contact your local Welsh for Adults Centre for more information about courses in your area. There are six Centres across Wales, which cover the following areas:

*Cardiff and
the Vale of Glamorgan – t: 02920 874710*

Glamorgan – t: 01443 483600

Gwent – t: 01495 333710

Mid Wales – t: 0800 876 6975

North Wales – t: 01248 383928

South West Wales – t: 01792 602070

For more details about classes and to find full contact details for the six Welsh for Adults Centres, go to:
www.cymraegioedolion.org or
www.welshforadults.org

You will also find information on a range of resources and organisations that can help you along the way.

Os ydych chi eisoes yn siarad Cymraeg, pam na wnewch chi ddysgu'r iaith i eraill fel tiwtor Cymraeg i Oedolion.

0845 4090 900

gwyb@eisteddfod.org.uk

www.eisteddfod.org.uk

www.facebook.com/eisteddfod

www.twitter.com/eisteddfod

